

Datblygu strategaeth 2030 yng Ngholeg Sir Benfro

Mae Coleg Sir Benfro yn wastad wedi rhoi pwyslais strategol ar gymhwyso technoleg ddigidol mewn dysgu, addysgu a holl weithrediadau eraill y coleg. Mae hyn yn golygu ein bod wedi canolbwyntio'n bennaf ar fentrau ar draws y coleg a sicrhau eu bod yn cael eu sefydlu ac yn dod yn arferion diofyn. Mae'r dull cyffredinol hwn hefyd yn golygu bod cynlluniau datblygu staff yn canolbwyntio ar y datblygiadau digidol a ddewiswyd gennym. Yn 2005, fe wnaethom weithredu WIFI o ansawdd uchel ar draws y Coleg. Yn 2005 fe wnaethom hefyd fabwysiadu Moodle fel ein ADRh a buddsoddi'n drwm yn y staff cymorth a'r rhaglenni DPP i sicrhau ei bod yn cael ei mabwysiadu'n llwyr yn yr holl addysgu a dysgu, â gofynion sylfaenol penodol ar athrawon. Yn 2014, gwnaethom ymrwymo i sicrhau bod 20 y cant o raglenni AB amser llawn yn cael eu cyflwyno drwy e-ddysgu, mewn sesiynau wedi'u hamserlennu. Roedd hyn yn gofyn am sefydlu tîm arbenigol, ailstrwythuro'r amserlenni, ailstrwythuro'r lle mewn dosbarthiadau a buddsoddi mewn cyfrifiaduron. Yn 2018, fe wnaethom ymrwymo i weithredu system olrhain graddau Moodle ar draws y coleg ar gyfer yr holl ddysgwyr a'r athrawon. Mantais yr ymagwedd strategol hon yw bod newidiadau mewn diwylliant yn fwy tebygol o lwyddo.

Rydym wedi mynd ati i weithredu Digidol 2030 yn yr un modd strategol trwy ymgorffori Digidol 2030 yn strategaethau, polisiau a phrosesau'r Coleg ei hun. Rydym wedi cymryd yr holl nodau ac amcanion o Digidol 2030 ac wedi eu hintegreiddio yn ein 'Strategaeth Dysgu Digidol' ein hunain. Cyflwynwyd y strategaeth i'r uwch dîm rheoli ym mis Rhagfyr 2018 a chafodd ei newid ar sail yr adborth a gafwyd.

Ym mis Mehefin 2019, gwahoddodd y Coleg Jisc i gynnal gweithdy a'i helpu i ddatblygu'r cynllun gweithredu cyfatebol i strategaeth Digidol 2030. Roedd y gweithdy'n cynnwys uwch dîm rheoli a thîm arweinyddiaeth y Coleg. Fe wnaethom ddefnyddio'r gweithdy i nodi a blaenoriaethu'r holl ysgogwyr/ffactorau sydd eu hangen i ymateb i'r strategaeth. O'r ymarfer hwn, cytunwyd ar saith maes blaenoriaeth, nodau cysylltiedig a chamau gweithredu y gallem ganolbwyntio arnynt yn ystod y 2 flynedd nesaf. Ar gyfer pob cam gweithredu, fe wnaethom gytuno pwy fyddai'n arwain ac ar ffrâm amser ddangosol. Fe wnaethom gytuno y byddai'r ffocws cyffredinol dros y 2 flynedd nesaf yn ymwneud â chyflogadwyedd ac yn cynnwys y nodau canlynol:

- Sicrhau bod darpariaeth ein cwricwlwm yn bodloni arferion digidol y diwydiant
- Datblygu fframwaith sgiliau cyflogadwyedd sy'n ymgorffori sgiliau digidol
- Sicrhau bod ein dysgwyr yn meddu ar y sgiliau digidol sy'n ofynnol er mwyn gweithio ac astudio
- Sicrhau bod gan staff y sgiliau i ategu gweledigaeth y strategaeth
- Datblygu a gweithredu cynllun i fanteisio ar ddadansoddiadau yn ymwneud â dysgwyr

Penderfynodd yr Uwch Dîm Rheoli hefyd y byddai nodau'r strategaeth dysgu digidol yn dod i'r amlwg ym mhob un o strategaethau eraill y coleg.

Yn ogystal â'r strategaeth, mae dogfen ar wahân o'r enw 'Dysgu am Ddyfarniadau Digidol' wedi cael ei drafftio, ac mae'n ceisio cyfleu sut yn union fydd y profiad i ddysgwyr, athrawon, aseswyr a rheolwyr ymhen 6 blynedd a 12 blynedd. Mae'r ddogfen Gweledigaethau Dysgu Digidol yn cynnwys set o luniau a senarios. Bydd y ddogfen weledigaeth yn datblygu trwy gynnwys enghreifftiau newydd dros amser
